

Date/Dyddiad 10 Mawrth 2017
Ask for/Gofynwch am M Matthews
Telephone/Rhif ffôn 01446 709727
Fax/Ffacs 01446 709376
Your Ref/Eich Cyf
My Ref/Cyf MM/CoEdBarry2017
e-mail/e-bost MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Directorate of Learning and Skills
Provincial House, Kendrick Road, Barry CF62 8BF
Telephone: (01446) 700111 Textphone: (01446)
741219
Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau,
Tŷ'r Dalaith, Heol Kendrick, Y Barri CF2 8BF
Rhif ffôn: (01446) 700111 Ffôn testun: (01446)
741219
www.valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk



I: Rieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Cyfun y Barri a Bryn Hafren Y Barri ac Uned Cyfeirio Disgyblion Y Daith;
Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu ysgolion sy'n bwydo i Ysgolion Cyfun y Barri a Bryn Hafren, Y Barri;
Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgolion Cyfun y Barri a Bryn Hafren, Y Barri a Phwyllgor Rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion Y Daith; ac
Ymgynghoreion Dynodedig

Annwyl Ymgynghorai,

Cynnig i sefydlu ysgolion uwchradd rhyw cymysg cyfrwng Saesneg newydd yn y Barri

Ar 6 Mawrth 2017, penderfynodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg ar gynnig i drawsffurfio addysg uwchradd yn y Barri drwy gau Ysgolion Cyfun y Barri a Bryn Hafren cyfrwng Saesneg un rhyw presennol a sefydlu dwy ysgol gyfun newydd rhyw cymysg, 11 - 18, cyfrwng Saesneg ar safleoedd cyfredol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren o fis Medi 2018 ymlaen.

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad llawn gyda'r ymgynghoreion perthnasol a ddaeth i derfyn gyda chyflwyno hysbysiad statudol ar y cynnig. Wrth wneud ei benderfyniad, gwnaeth y Cabinet ystyried yr holl adroddiadau Cabinet blaenorol sy'n ymwneud â'r cynnig; ymatebion i'r ymgynghoriad fel y nodwyd yn yr Adroddiad Ymgynghoriad a'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb yr awdurdod lleol fel y nodwyd yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau. Gan ystyried pob mater, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r cynnig. O ganlyniad, bydd dwy ysgol gyfun cyfrwng Saesneg rhyw cymysg newydd yn cael eu sefydlu ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren o 1 Medi 2018 ymlaen.

Nodwyd bod 3 gwrthwynebiad statudol. Mae prif bryderon y gwrthwynebwyr wedi'u crynhoi yn yr adroddiad gwrthwynebiadau ynghyd ag ymateb yr awdurdod lleol. Mae'r adroddiad gwrthwynebiadau ar gael ar wefan y cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/ysgolionybarri neu mae copi caled ar gael ar gais yn y cyfeiriad uchod neu e-bostiwrch MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Galluogi gwelliannau pellach i ganlyniadau addysgol a safonau yn yr ardal;
- Cynnal mynediad a dewis y rhieni ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ardal;
- Parhau i gynnig cymysgedd o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a ffydd yn y Barri a'r ardal gyfagos;
- Lleihau lleoedd dros ben yn ardal y Barri
- Cyflawni'r newid trawsffurfiol sydd ei angen i'r holl ddisgyblion allu cyflawni eu potensial ac o ganlyniad, cyfrannu at adfywiad y Barri.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn perthynas â'r ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

Ansawdd a Safonau Addysg

Nododd Estyn mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghoriad: "Mae'r cynigiwr wedi nodi rhesymeg glir dros y cynnig. Mae hyn yn cynnwys trafod ansawdd gwael adeiladau'r ysgol a sicrhau darpariaeth uwchradd rhyw cymysg yn ardal y Barri. Mae'r cynigiwr wedi nodi'n glir ei fod o'r farn y bydd sefydlu dwy ysgol rhyw cymysg newydd yn cryfhau ac yn ehangu darpariaeth i ddysgwyr a'r gymuned ehangach. Mae hefyd yn nodi'n rhesymol y bydd yr ysgolion newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddatblygu'r cwricwlwm".

Dyhead y Cyngor yw bod canlyniadau addysgol ym Mro Morgannwg ymhlith y gorau yng Nghymru ac yn cymharu'n dda gydag awdurdodau mwyaf llwyddiannus Lloegr gyda phroffiliau economaidd-gymdeithasol tebyg. Bydd y cynnig yn helpu i gyflawni'r dyhead hwnnw.

Bydd y ddwy ysgol newydd hefyd yn rhoi mwy o gyfle i ddatblygu'r cwricwlwm gan alluogi'r ddarpariaeth o gwricwlwm eang a pherthnasol. Bydd gan fechgyn a merched fynediad at amrywiaeth eang iawn o gyrsgiau o safon ac athrawon arbenigol. Bydd darpariaeth well ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig ar gael yn y ddwy ysgol.

Bydd gan y ddwy ysgol newydd weledigaeth glir ac uchelgeisiol o ran llwyddiant eu disgyblion er mwyn sicrhau gwelliannau pellach i ganlyniadau addysgol, gan gynnwys presenoldeb a pherfformiad yr holl ddisgyblion yn ystod cymwysterau TGAU ac ôl-16.

Yn ystod y cyfnod pontio ar ôl y penderfyniad, bydd y Cyngor yn cymryd yr holl gamau rhesymol i leihau unrhyw darfu ar ddisgyblion drwy weithio'n agos gyda'r ddwy ysgol.

Bydd y cynnig yn darparu buddsoddiad sydd wir ei angen yn y ddwy ysgol, ac yn helpu i gyflawni'r newid trawsffurfiol sydd ei angen i'r holl ddisgyblion allu cyflawni eu llawn potensial.

Angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Bydd y cynnig yn sicrhau cytbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd yn y Barri i'r tymor hir. Bydd y cynnig yn lleihau lleoedd dros ben yn ardal y Barri ac yn cadw darpariaeth Cymraeg, Saesneg a ffydd.

Dan y cynigion, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar drafnidiaeth disgyblion i'r ysgolion ac yn ôl. Ni fydd unrhyw newid o ran cymhwysedd trafnidiaeth ysgol am ddim o ganlyniad i'r cynnig hwn. Ni fydd y llwybrau cerdded diogel i'r ysgol a ddefnyddir ar gyfer asesu trafnidiaeth ysgol am ddim yn newid o ganlyniad i'r cynnig er na fydd rhai o ddisgyblion yn gymwys am drafnidiaeth ysgol am ddim os ydynt yn dewis gwneud cais am ysgol o fewn 3 milltir o gyfeiriad eu cartref.

Noda Estyn "mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y cynnig ar drefniadau teithio i ddysgwyr".

Ariannu addysg

Caiff cyllid ei ddarparu drwy'r fformiwla ariannu ysgolion sy'n dyrannu'r rhan fwyaf o gyllid i ysgolion ar sail niferoedd disgyblion. Byddai sefydlu dwy ysgol uwchradd rhyw cymysg newydd yn arwain at gyllid yn cael ei ddyrannu i'r ysgolion ar yr un sail ag ysgolion uwchradd eraill ym Mro Morgannwg.

Bydd y cynnig hwn yn golygu y gwneir buddsoddiadau cyfalaf wrth sefydlu'r ysgolion newydd a datblygu cyfleusterau penigamp. Cost amcangyfrifol y cynllun yw £44m. Disgwylir y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu rhan o'r cyllid dan Fand B y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Byddai'r Cyngor yn darparu gweddill yr arian cyfalaf.

Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion


Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol ym mis Ionawr 2016 i adolygu opsiynau ar gyfer sefydlu ysgolion cyfrwng Saesneg rhyw cymysg yn y Barri. Datblygwyd strategaeth ymgysylltu a oedd yn sicrhau bod barn disgyblion, athrawon, rhieni, llywodraethwyr a'r undebau llafur wrth galon y datblygiad ac unrhyw gynigion newydd.

Ar ôl y strategaeth ymgysylltu, roedd y Bwrdd yn credu bod angen dwy ysgol newydd rhyw cymysg er mwyn cyflawni graddfa'r trawsffurfiad oedd yn ofynnol er mwyn cyrraedd y deilliannau dymunol ar gyfer addysg rhyw cymysg yn y Barri. Golyga hyn fod angen ail-frandio'r ysgolion. Nid yw'r ail-frandio hyn yn golygu newid enw'r ysgol yn unig, oherwydd bydd angen gwneud llawer o newidiadau i sicrhau bod y ddau ryw wedi'u cynnwys yn llawn, waeth beth fo safle'r ysgolion, ac i sefydlu prosesau cydweithio, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth.

Cafodd yr opsiwn i gau'r ddwy ysgol ar 4 Gorffennaf 2016 gan y Cabinet a chan Bwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 3 Hydref 2016.

Mae'r penderfyniad yn amodol ar y gweithdrefnau a nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n golygu y gall penderfyniadau'r Cabinet gael eu hadolygu. Pe byddai'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, bydd yr holl randdeiliaid yn cael gwybod.

Yn gywir



Paula Ham
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau